Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith /
Climate Change, Environment and Infrastructure Committee
Datgarboneiddio'r sector tai preifat / Decarbonising the private housing sector
DH2P_14
Ymateb gan / Evidence from National Energy Action (NEA) Cymru

**1. Cyflwyniad**

1.1 Mae National Energy Action (NEA) yn elusen tlodi tanwydd genedlaethol sy'n dymuno sicrhau y gall pawb fforddio cadw eu cartrefi'n gynnes ac yn ddiogel.[1] Ac eto erbyn hyn - yn fwy nag erioed - mae cyfuniad gwenwynig o brisiau ynni eithriadol o uchel, incwm isel a thai aneffeithlon yn gwadu hyn i gannoedd ar filoedd o bobl yng Nghymru.

1.2 Rydym yn croesawu'r cyfle hwn i helpu i gyfeirio ymchwiliad byr y Pwyllgor i ddatgarboneiddio'r sector tai preifat, a gwneud hynny gan ganolbwyntio'n benodol ar y rhai sy'n byw ar yr incwm isaf, yn y cartrefi lleiaf effeithlon. Yn benodol, hoffem amlygu pwysigrwydd hanfodol Rhaglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru yn y gofod hwn, ochr yn ochr ag effaith oedi ar ran Llywodraeth y DU wrth wella Safonau Effeithlonrwydd Ynni Gofynnol yn y sector rhentu preifat (SRhP) yma.

**2. Yr ymagwedd bresennol at ddatgarboneiddio tai yn sectorau rhentu preifat a pherchennog preswyl Cymru, gan gynnwys effeithiolrwydd rhaglenni a chefnogaeth ôl-osod bresennol**

2.1 Cymru sydd â'r stoc adeiladau hynaf a lleiaf effeithlon o safbwynt thermol o'i chymharu â gwledydd eraill y DU a gwledydd gogledd Ewrop. Gyda Thystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) D ar gyfartaledd, mae ar Gymru angen y lefel uchaf o fuddsoddiad o unrhyw ranbarth yn y DU i gyrraedd EPC Band C.[2] Mae hyn yn effeithio'n anghymesur ar yr aelwydydd tlotach yng Nghymru; y mae llawer ohonynt wedi'u dal yn y cartrefi mwyaf aneffeithlon, er anfantais i'w hiechyd a'u llesiant.

2.2 Yn 2018, roedd rhentwyr preifat a pherchnogion preswyl yn cynrychioli'r mwyafrif helaethaf (87%) o'r boblogaeth mewn tlodi tanwydd yng Nghymru.[3] Y mwyafrif oedd y ddaliadaeth perchennog preswyl (64%), gan mai hwn yw'r math mwyaf cyffredin o ddaliadaeth o fewn stoc tai Cymru.[4] Y SRhP - y ddaliadaeth sy'n perfformio gwaethaf o ran effeithlonrwydd ynni[5] - oedd â'r gyfran uchaf o aelwydydd mewn tlodi tanwydd, lle'r oedd tua 20% o'r holl aelwydydd rhentu preifat mewn tlodi tanwydd o'i gymharu â 11% o berchnogion preswyl a 9% o dai cymdeithasol bryd hynny.[6]

2.3 Dros y misoedd diwethaf, rydym wedi gweld prisiau ynni'n esgyn i lefelau digynsail, sydd yn aml yn amhosib i'w fforddio. Erbyn hyn mae Llywodraeth Cymru'n amcangyfrif y gallai hyd at 45% o holl aelwydydd Cymru (h.y. 614,000) fod mewn tlodi tanwydd erbyn hyn, gan ddilyn y cynnydd yn y cap ar brisiau ynni o 1 Ebrill 2022. Amcangyfrifir bod hynny'n cynnwys hyd at 98% o holl aelwydydd incwm is Cymru (217,700), a rhagfynegir bod hyd at 41% (91,700) mewn tlodi tanwydd difrifol.[7]

2.4 Er nad yw amcangyfrifon modelu diweddaraf Llywodraeth Cymru yn cynnwys dadansoddiad fesul daliadaeth, rydym yn disgwyl y bydd y sector tai preifat yng Nghymru yn parhau i gartrefu'r mwyafrif helaeth o aelwydydd mewn tlodi tanwydd yng Nghymru, fel yn 2018.

2.5 Yn anffodus, mae'r sefyllfa hon ond yn debygol o fynd yn fwy enbyd, gyda'r rhagolygon diweddaraf gan Cornwall Insight yn rhybuddio bod y cap ar brisiau ynni'n debygol o godi eto, ymhell y tu hwnt i'r c.£2,000/ blwyddyn ar gyfartaledd sydd gennym heddiw, i fwy na £4,250 y flwyddyn erbyn mis Ionawr 2023.[8]

2.6 Mae'r rhain yn gostau amhosib i lawer o bobl a byddant yn uwch o lawer i'r rhai sy'n byw yn y cartrefi lleiaf effeithlon. Ni fu'r achos dros uwchraddio effeithlonrwydd ynni ein tai presennol wrth i ni ddatgarboneiddio erioed yn gryfach nac yn fwy brys. Cynyddu effeithlonrwydd thermol cartrefi yw'r ffordd orau a pharhaol o hyd o leihau tlodi tanwydd, gan ddarparu gostyngiad parhaol mewn biliau ynni, a helpu i sicrhau bod y newid i wresogi glân mor gost-effeithiol â phosib.

2.7 Mae NEA o'r farn gref mai'r prawf litmws go iawn ar gyfer y rhan fwyaf o'r boblogaeth sy'n dlawd o ran tanwydd yng Nghymru mewn perthynas â symud tuag at ein targedau newid yn yr hinsawdd a thlodi tanwydd fydd cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer fersiwn nesaf ei Rhaglen Cartrefi Clyd. Disgwylir i'r rhain gael eu cyhoeddi ym mis Medi.

3. **Camau y dylai Llywodraeth Cymru eu cymryd i fwrw ymlaen â rhaglen ôl-osod ar gyfer y sectorau hyn yn y tymor byr, canolig a hir**

3.1 Yn ddiweddar, mae Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd wedi arwain ymchwiliad i'r Rhaglen Cartrefi Clyd[9]. Mae NEA yn cefnogi llawer o'i argymhellion.

3.2 Darparodd NEA dystiolaeth ysgrifenedig a llafar i'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ac er mwyn cadw hyn yn gryno, fe'ch gwahoddwn i ystyried y dystiolaeth honno fel rhan o'ch ymchwiliad presennol. Darperir dolen i'n cyflwyniad ysgrifenedig yn yr ôl-nodyn hwn.[10]

3.3 Yn gryno, mae NEA o'r farn bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau y bydd y Rhaglen Cartrefi Clyd nesaf yn:

- targedu'r 'gwaethaf yn gyntaf', gan ganolbwyntio ar godi aelwydydd ar yr incwm isaf yn y cartrefi a rentir yn breifat a pherchennog preswyl lleiaf effeithlon allan o dlodi tanwydd;
- mabwysiadu ymagwedd mesurau lluosog, 'ffabrig yn gyntaf' briodol, gan gynnwys rhaglen gymorth wedi'i theilwra sydd â'r nod o ymdrin â'r heriau penodol a wynebir mewn ardaloedd gwledig;
- hygyrch i bob aelwyd sy'n gymwys i gael cymorth a bod mesurau'n cael eu cefnogi gan gyngor cynhwysfawr;
- cael ei gefnogi gan gyllid digonol a sail gyfreithiol gadarn i gyflawni'r uchelgais a nodwyd yng Nghynllun Trechu Tlodi Tanwydd Llywodraeth Cymru.

3.4 Yn ddi-os mae'r Rhaglen Cartrefi Clyd wedi gwneud rhai gwelliannau sydd i'w croesawu'n frwd i fywydau aelwydydd mewn tlodi tanwydd dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae ei esblygiad wedi golygu'n gynyddol na fu iddi gyflawni ei 'hymagwedd tŷ cyfan' wreiddiol yn llawn, yn hytrach mae wedi dibynnu'n drwm ar osod boeleri a gosodiadau gwres canolog newydd, gyda llawer llai o fesurau inswleiddio. Mae hyn wedi bod ar draul uwchraddiadau pwrpasol eraill i ffabrig, a fyddai'n darparu manteision hirdymor ac yn helpu i wneud ein cartrefi'n gynaliadwy gynnes.

3.5 Mae ein tystiolaeth i'r pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn myfyrio ar sut y gall Llywodraeth Cymru sicrhau y bydd fersiwn nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd yn gweddu'n well i'w hymdrechion i ddatgarboneiddio tai yng Nghymru ac yn cyfeirio at *Fonitor Tlodi Tanwydd 2021*[11] NEA ac Energy Action Scotland a ymchwiliodd yn gynhwysfawr i faterion cysylltiedig, gan wneud sawl argymhelliad ynglŷn â sut i ddatgarboneiddio gwresogi'n effeithiol mewn aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd.

3.6 Rydym hefyd yn croesawu adroddiad diweddar Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, *Cartrefi Addas ar gyfer y Dyfodol*[12], ac adroddiad diweddar y Sefydliad Tai Siartredig, *Datgarboneiddio Sector Rhentu Preifat Cymru*[13], sy'n cefnogi'r casgliadau, gan gynnwys y dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio'r Rhaglen Cartrefi Clyd a dyblu'r cyllid i ~£732 miliwn ar gyfer yr 2020au, wedi'u targedu at yr eiddo gwaethaf a'r rhai sydd mewn tlodi tanwydd difrifol.[14]

**4. Yr heriau allweddol wrth gyflwyno rhaglen ôl-osod yn y sectorau hyn, gan gynnwys y rhai ariannol, ymarferol ac ymddygiadol, a'r camau sydd eu hangen gan Lywodraeth Cymru (a'i phartneriaid) i'w goresgyn**

4.1 Ym *Monitor Tlodi Tanwydd 2021* NEA, gwelsom fod aelwydydd mewn tlodi tanwydd yn wynebu rhwystrau ariannol, ffisegol ac o ran cygnor a rheoleiddio i ddatgarboneiddio eu cartrefi. Mae angen i Lywodraeth Cymru oresgyn y rhain i gyd trwy ei hymagwedd at ddylunio'r cynlluniau. Crynhoir y rhwystrau hyn a'n cynigion i'w goresgyn isod.

| Math | Rhwystrau | Argymhellion |
|---|---|---|
| Ariannol | Yr angen am gymorth ariannol ychwanegol<br>Costau cudd, fel adnewyddu'r gosodiad trydanol ac ail-addurno<br>Y potensial i filiau ynni gynyddu ar ôl newid technoleg gwresogi<br>Anallu cartrefi sydd mewn dyled ynni i gapio eu cyflenwad nwy | Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu cyllid tlodi tanwydd, i £325m i 2025, yn unol â'r argymhelliad gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.<br>Dylai'r cyllid dalu am gostau cudd pan fo hynny'n briodol.<br>Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Gweithredwyr y Rhwydweithiau Dosbarthu (DNO) i sicrhau bod costau gwella'r cysylltiad mewn cartref sy'n dlawd o ran tanwydd (wrth osod pwmp gwres) yn cael eu cymdeithasu.<br>Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Llywodraeth y DU i helpu lleihau cost ardollau offer adnewyddadwy etifeddol ar filiau trydan er mwyn gostwng costau rhedeg pympiau gwres. |
| Ffisegol | Mae angen mwy o fuddsoddiad ar gartrefi sydd ag effeithlonrwydd ynni is i fod yn 'barod am sero net'<br>Buddsoddiad uwch o lawer ar gyfer y cartrefi gwledig sy'n perfformio waethaf<br>Mae diffyg gosodwyr i wneud y fath welliannau | Dylai pob polisi i ddatgarboneiddio gwres fod yn 'ffabrig yn gyntaf'.<br>Dylai fod capiau digonol ar gostau cynlluniau tlodi tanwydd i ddarparu ar gyfer y costau uchel a wynebir yn aml wrth wella tai o ansawdd gwael.<br>Dylai cyllid hirdymor fod ar gael i gydweddu â'r signalau rheoleiddio. |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyngor ac Ymwybyddiaeth** | Mae diffyg ymwybyddiaeth ynglŷn â pha dechnolegau sy'n gweddu orau i ba aelwyd | Dylid darparu cyllid ar gyfer cyngor ymarferol i aelwydydd sydd wedi'u hallgau'n ddigidol.<br>Cynnal safonau ansawdd uchel (h.y. TrustMark a PAS 2035) trwy gydol cynlluniau effeithlonrwydd ynni<br>Dylai iawndal fod ar gael pan fydd gosodiadau'n disgyn o dan y safon ofynnol. |
| | Ychydig iawn o gyllid canolog sydd ar gyfer cyngor ar ynni | |
| | Mae diffyg amddiffyniad i ddefnyddwyr o ran effeithlonrwydd ynni a thechnolegau gwresogi carbon isel | |
| **Polisi a Rheoleiddio** | Diffyg cyllid i helpu aelwydydd mewn tlodi tanwydd i ddatgarboneiddio | Cyllid hirdymor ychwanegol (fel uchod).<br>Ymestyn rheoliadau'r sector rhentu preifat i EPC C erbyn 2028, gan gynnwys cofrestr landlordiaid [yn Lloegr, fel yng Nghymru] i gynorthwyo gorfodi. |
| | Bu'r cyllid yn gymharol fyr dymor | |
| | Diffyg gorfodi rheoliadau'r sector rhentu preifat | |

**5. Sut y gellir taro'r cydbwysedd cywir rhwng dylanwadu/cymell perchnogion cartrefi a landlordiaid y sector preifat i ôl-osod eu heiddo a rheoleiddio i godi safonau er mwyn sbarduno cynnydd**

5.1 Yr isafswm safon gyfer effeithlonrwydd ynni a bennir ar gyfer eiddo rhentu preifat yng Nghymru a Lloegr ar hyn o bryd yw EPC E, yn unol â'r Isafswm Safonau Effeithlonrwydd Ynni yn Rheoliadau Effeithlonrwydd Ynni (Eiddo Rhentu Preifat) (Cymru a Lloegr) 2015.

5.2 Ymrwymodd Llywodraeth y DU i estyn rheoliadau SRhP yn y Strategaeth Twf Glân am y tro cyntaf ym mis Hydref 2017, gyda'r nod o uwchraddio cynifer o gartrefi rhentu preifat â phosib i EPC C erbyn 2030, pan fo hynny'n ymarferol, yn gost-effeithiol, ac yn fforddiadwy. Fe ymgynghorodd wedyn ar godi'r isafswm safon hon i EPC C erbyn 2028. Cadarnhawyd yr ymrwymiad hwn yn Strategaeth Tlodi Tanwydd 2021 a Strategaeth Gwres ac Adeiladau diwygiedig Llywodraeth y DU.

5.3 Byddai'r fath newid mewn safonau'n gam cadarnhaol. Fodd bynnag, er bod bron i bum mlynedd wedi mynd heibio ers i Lywodraeth y DU wneud yr ymrwymiad hwn yn y lle cyntaf, a bron i ddwy flynedd ers iddi ymgynghori ar y manylion, rydym yn dal i aros am ymateb a rheoliadau diwygiedig Llywodraeth y DU. Gan hynny, mae'n bosib bod y cyfraniad y mae Llywodraeth y DU efallai wedi tybio y byddai gwelliannau SRhP yn ei wneud at gyflwyno ein hymdrechion tlodi tanwydd a gostwng carbon yn llawer llai erbyn hyn. Rydym hefyd yn bryderus iawn y bydd y polisi, os caiff ei gyhoeddi, yn sylweddol wannach neu efallai na fydd yn digwydd o gwbl.

5.4 Y naill ffordd neu'r llall, byddai hyn yn tanseilio ymdrechion yng Nghymru yn sylweddol i gyrraedd ein targedau tlodi tanwydd a newid yn yr hinsawdd. O ystyried bod yr oedi'n deillio o ddiffyg gweithredu Llywodraeth y DU ei hun, mae hefyd yn codi amheuaeth ynghylch a yw'n gwneud popeth 'cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol' i fodloni ei ofynion statudol ei hun yn Lloegr.

5.5 At hynny, dim ond rhan o'r darlun yw'r rheoliadau. Mae'n rhaid gorfodi rheoliadau ac mae'r ddyletswydd o dan MEES i wneud hynny wedi'i gosod ar awdurdodau lleol. Gan hynny, rydym yn adleisio casgliad y Sefydliad Siartredig Tai Cymru bod angen rheoliadau a safonau newydd i sbarduno cynnydd yn nifer y rhai sy'n manteisio ar effeithlonrwydd ynni yn y SRhP, ac wrth

gyflawni amcanion sero net, a fydd yn gofyn am fwy o adnoddau a gwell gorfodaeth, yn enwedig ar gyfer awdurdodau lleol.[15]

5.6 Mae'n rhaid i reoliadau hefyd gael eu hategu gan gymhellion ar gyfer landlordiaid preifat. Mae llawer o ffyrdd o wneud hyn, gan gynnwys trwy gymhellion treth fel y Lwfans Arbed Ynni Landlordiaid sydd bellach wedi dod i ben. Fodd bynnag, mae polisi treth yn bŵer a gedwir yn ôl. O fewn rheolaeth Llywodraeth Cymru mae'r gallu i ddarparu cyllid i landlordiaid os ydynt yn bwriadu cyrraedd y safon. Mae arfer da yn Lloegr wedi galluogi landlordiaid i gyrchu cyllid sy'n cyfateb i draean o gost y mesurau, hyd at draean o'r cap cyffredinol ar gostau o fewn cynlluniau. Byddai efelychu'r ymagwedd hon yng Nghymru'n ddatblygiad i'w groesawu. Fodd bynnag, os oes modd i landlordiaid gyrchu cymhellion, mae'n rhaid rhoi cytundeb ar waith na ellir codi rhenti am o leiaf dair blynedd ar ôl i'r mesurau gael eu gosod. Byddai'n annheg i Lywodraeth Cymru roi cymhorthdal i fesurau, dim ond i'r gwelliannau hynny arwain at gynnydd mewn rhent yn syth wedyn.

**DIWEDD**

---

[1] Mae National Energy Action (NEA) Cymru yn eirioli dros wneud cartrefi cynnes yn flaenoriaeth genedlaethol, yn darparu llwyfannau i sefydliadau cymunedol ddod ynghyd i rannu barn ac arfer gorau, ac yn gweithio gyda phartneriaid i ddarparu hyfforddiant a chymwysterau cenedlaethol gysylltiedig â thlodi tanwydd, dyled tanwydd, cynhesrwydd fforddiadwy a chyngor ymarferol ar ynni i staff sy'n wynebu'r gymuned, ac i gefnogi aelwydydd incwm isel ac agored i niwed anghenus yn uniongyrchol. Gweler www.nea.org.uk.

[2] Gweler *Datgarboneiddio Sector Rhentu Preifat Cymru*, Sefydliad Tai Siartredig Cymru yn https://cih.org/media/sndhqsjn/0510-ttc-decarbonising-wales-private-rented-sector-welsh.pdf

[3] Gweler *Amcangyfrifon tlodi tanwydd ar gyfer Cymru, 2018: diwygiedig,* Llywodraeth Cymru yn https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-12/amcangyfrifon-tlodi-tanwydd-ar-gyfer-cymru-2018.pdf

[4] *ibid*

[5] Gweler *Datgarboneiddio Sector Rhentu Preifat Cymru*, Sefydliad Tai Siartredig Cymru yn https://cih.org/media/sndhqsjn/0510-ttc-decarbonising-wales-private-rented-sector-welsh.pdf

[6] Gweler *Amcangyfrifon tlodi tanwydd ar gyfer Cymru, 2018: diwygiedig,* Llywodraeth Cymru yn https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-12/amcangyfrifon-tlodi-tanwydd-ar-gyfer-cymru-2018.pdf

[7] Gweler *Amcangyfrifon tlodi tanwydd wedi'u modelu ar gyfer Cymru (prif ganlyniadau): ym mis Hydref 2021* yn https://llyw.cymru/amcangyfrifon-tlodi-tanwydd-wediu-modelu-ar-gyfer-cymru-prif-ganlyniadau-ym-mis-hydref-2021

[8] Gweler https://www.cornwall-insight.com/price-cap-forecasts-for-january-rise-to-over-4200-as-wholesale-prices-surge-again-and-ofgem-revises-cap-methodology/

[9] Gweler https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=38494

[10] Gweler https://busnes.senedd.cymru/documents/s122018/FP12-%20National%20Energy%20Action%20Cymru.pdf

[11] Gweler *Fuel Poverty Monitor 2020/21*, NEA (2021) at https://www.nea.org.uk/wp-content/uploads/2021/11/0000_NEA_Fuel-Poverty-Report-and-Exec-Summary_v2.pdf

[12] Gweler *Cartrefi addas ar gyfer y Dyfodol: Yr Her Ôl-osod*, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru mewn partneriaeth â New Economics Foundation. Mae'r Comisiynydd yn galw ar Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i gydweithio i ariannu'r her ôl-osod gan ddefnyddio'r holl ysgogiadau ariannol sydd ar gael iddynt. Mae'r cynigion yn cynnwys Llywodraeth Cymru yn dyblu cyllid tlodi tanwydd i £732m erbyn 2030 ac yn ei ategu â grantiau i bobl ar incwm isel a fyddai ar gael o gyllid seilwaith cenedlaethol Llywodraeth y DU (£2.6bn, ynghyd â dyraniad o £1bn o'r Gronfa Ffyniant a Rennir). Crynhoir canfyddiadau'r adroddiad mewn Crynodeb Gweithredol (https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2021/07/CYM-Exec-Summary-CYM-Financing-the-decarbonisation-of-housing-in-Wales.pdf), a ategir gan Grynodeb Technegol (https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2021/07/CYM-Tech-Summary-CYM-Financing-the-decarbonisation-of-housing-in-Wales.pdf) ac adroddiad manwl (https://neweconomics.org/uploads/files/Financing-Wales-Housing-Decarbonisation.pdf)

[13] Gweler *Datgarboneiddio Sector Rhentu Preifat Cymru*, Sefydliad Tai Siartredig Cymru yn https://cih.org/media/sndhqsjn/0510-ttc-decarbonising-wales-private-rented-sector-welsh.pdf

[14] *ibid*

[15] *ibid*